WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru**

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** SOD/SD
**Dyddiad cyhoeddi:** 19 Mawrth 2018

Annwyl Simon

## Adolygiad o daliadau ymadael yng Nghynllun Ymadael Gwirfoddol 2016-17

Cyfeiriaf at adroddiad y Pwyllgor ar Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, Amcangyfrif ac ati, Swyddfa Archwilio Cymru, dyddiedig mis Tachwedd 2017.

Gofynnodd Argymhelliad 4 i ni adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y problemau posibl yn y cynllun ymadael gwirfoddol cyn gynted ag yr oeddent wedi'u datrys. Gallaf roi gwybod i chi bod ein hadolygiad wedi dod i ben erbyn hyn.

Cynhaliwyd yr adolygiad o ganlyniad i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ar ôl i Lywodraeth y DU golli Adolygiad Barnwrol o'r newidiadau i Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil yn 2016. Roedd y canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu'r penderfyniadau a wnaed o ran y Cynllun Ymadael Gwirfoddol dan delerau 2016 a phenderfynu, fel cyflogwr, pa un a fyddwn ni wedi rhoi taliadau uwch pe byddai telerau cynllun 2010 wedi bod ar waith ar y pryd.

Mae cynlluniau Ymadael Gwirfoddol ar gael yn ôl disgresiwn, a cheir hyblygrwydd i gyflogwyr gynnig unrhyw beth rhwng yr hyn sydd gyfwerth ag isafswm ac uchafswm statudol y tariff safonol. Gwneir y penderfyniad ynghylch pa delerau a gynigir o dan Gynllun Ymadael Gwirfoddol yn ôl disgresiwn y cyflogwr, ac nid oes hawl i gael cynnig telerau penodol.

Daeth ein hadolygiad i'r casgliad na fyddai Swyddfa Archwilio Cymru wedi gallu fforddio taliadau ymadael pe baent wedi'u cyfrifo ar gyfradd uwch, felly ni fyddwn wedi gwneud taliadau ar gyfradd uwch nag a wnaed. Rydym wedi rhoi gwybod i Swyddfa'r Cabinet, ac i'r gweithwyr a adawodd dan delerau cynllun 2016, am ein hadolygiad a'i ganlyniad.

Gobeithiaf fod hyn yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir

**Steve O'Donoghue**
**Cyfarwyddwr Cyllid ac AD**